# Personal Use of Social Media Policy

**Last updated:** 8th May 2018

**Policy owner:** Dale Haddon, HR Director

**Department:** Employee Relations & Policy, BBC HR

## Principles

This policy should be read in conjunction with the BBC Editorial Guidelines which provides additional clarity for staff in editorial/politically sensitive positions.

Personal use of social media is a part of everyday life. Employees and staff working for the BBC are not prohibited from using social media platforms in a personal capacity. The BBC's reputation for impartiality and objectivity is, however, crucial. The public must be able to trust the integrity of BBC programmes and services. Staff should take reasonable steps to ensure their activity on social media platforms does not undermine the BBC's, nor their own, professional impartiality or reputation and/or bring the organisation into disrepute.

It's therefore important all staff are diligent when using social media in a personal capacity and they should consider the points to remember below.

Points to Remember When Using Social Media

- Remember that even when posting in a personal capacity you may still be easily identified by others as working for or representing the BBC.
- Avoid engaging in activities on social media which might bring the BBC into disrepute or undermine the BBC's reputation.
- Do not post derogatory or disrespectful comments on social media and/or use social media to attack or abuse colleagues.
- Be aware that social media is a public forum and the same considerations apply as, for example, speaking in public or writing for a publication either officially or out of work. In social media the boundaries between professional and personal are often more blurred – so it's important to be particularly careful.
- Be aware that even on closed social networks - like Facebook – their posts can be shared publicly and/or seen by other users they hadn't intended.
- Remember that once something is posted on social media it can be difficult to remove.
- Be aware that stating that their views are personal is no insurance against negative media or other publicity.

# Polisi Defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol at Ddibenion Personol

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 8fed Mai 2018

**Perchennog y polisi:** Dale Haddon, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol

**Adran:** Cysylltiadau a Pholisïau Gweithwyr, Adnoddau Dynol y BBC

## Egwyddorion

Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â Chanllawiau Golygyddol y BBC sy'n cynnig eglurhad ychwanegol i staff mewn swyddi golygyddol/gwleidyddol sensitif.

Mae defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol at ddibenion personol yn rhan o fywyd bob dydd. Ni chaiff gweithwyr a staff sy'n gweithio i'r BBC eu gwahardd rhag defnyddio llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol at ddibenion personol. Fodd bynnag, mae enw da y BBC am fod yn ddiduedd ac yn wrthrychol yn hollbwysig. Mae'n rhaid i'r cyhoedd allu ymddiried yn nidwylledd rhaglenni a gwasanaethau'r BBC. Dylai staff gymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw eu gweithgareddau ar lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol yn tanseilio didueddrwydd proffesiynol neu enw da y BBC, na nhw eu hunain, a/neu ddwyn anfri ar y sefydliad.

Mae'n bwysig felly bod pob aelod o staff yn ofalus wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol at ddibenion personol a dylent ystyried y pwyntiau i'w cofio isod.

Pwyntiau i'w cofio wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol

- Cofiwch hyd yn oed pan fyddwch yn postio negeseuon personol y gallai fod yn hawdd i bobl eraill eich adnabod fel rhywun sy'n gweithio i'r BBC neu'n ei gynrychioli.
- Dylech osgoi cymryd rhan mewn gweithgareddau ar y cyfryngau cymdeithasol a allai ddwyn anfri ar y BBC neu danseilio enw da'r BBC.
- Peidiwch â phostio sylwadau tramgwyddus neu amharchus ar y cyfryngau cymdeithasol a/neu ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ymosod ar gydweithwyr neu eu henllibio.
- Cofiwch fod y cyfryngau cymdeithasol yn fforwm cyhoeddus a bod yr un ystyriaethau'n berthnasol ag, er enghraifft, siarad yn gyhoeddus neu ysgrifennu ar gyfer cyhoeddiad naill ai'n swyddogol neu y tu allan i'r gwaith. Ar y cyfryngau cymdeithasol, mae'r ffiniau rhwng bywyd proffesiynol a bywyd personol yn aml yn fwy annelwig - felly mae'n bwysig eich bod yn ofalus iawn.
- Cofiwch hyd yn oed mewn rhwydweithiau cymdeithasol caeedig - fel Facebook - y gellir rhannu eich negeseuon yn gyhoeddus a/neu y gall defnyddwyr eraill nad oeddech wedi bwriadu iddynt eu gweld.
- Cofiwch y gall fod yn anodd iawn dileu rhywbeth sydd wedi cael ei bostio ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Cofiwch nad yw nodi bod eich safbwyntiau yn rhai personol yn eich diogelu rhag sylw negyddol gan y cyfryngau na chyhoeddusrwydd arall.